

Presennol

Y Cyngorydd KJ Watts – Cadeirydd

S Aspey	SE Baldwin	TH Beedle	JPD Blundell
NA Burnett	MC Clarke	N Clarke	RJ Collins
HJ David	P Davies	PA Davies	SK Dendy
DK Edwards	J Gebbie	T Giffard	RM Granville
CA Green	DG Howells	A Hussain	RM James
B Jones	M Jones	MJ Kearn	DRW Lewis
JE Lewis	JR McCarthy	D Patel	RL Penhale-Thomas
AA Pucella	KL Rowlands	B Sedgebeer	RMI Shaw
CE Smith	SG Smith	JC Spanswick	RME Stirman
G Thomas	T Thomas	E Venables	SR Vidal
MC Voisey	LM Walters	CA Webster	DBF White
PJ White	A Williams	AJ Williams	HM Williams
JE Williams	RE Young		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Radcliffe a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

Deborah Exton	Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democritaidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Janine Nightingale	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Kevin Stephens	Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democritaidd
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

460. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd S Baldwin fuddiant rhagfarnus yn eitem 6 ar yr Agenda a thynnu'n ôl o'r cyfarfod pan ystyriwyd yr adroddiad/cyflwyniad hwn.

461. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD:

Bod Cofnodion y Cyngor, dyddiedig 16 Medi 2020, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar y canlynol:

1. Bod y Cyngor yn nodi bod y datganiad o fuddiant personol a wnaed gan y Maer mewn perthynas ag eitem y Fargen Ddinesig wedi'i wneud yn dilyn y cyfarfod ac nid yn y cyfarfod ei hun.
2. Y dylid nodi ymhellach fod y Maer wedi ymddiheuro yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor, gan ei fod wedi cadarnhau ei fod yn anghywir i gyhoeddi bod Cyngorydd Ceidwadol wedi gwneud datganiad anghywir ar eitem yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Medi 2020, pan allai fod wedi bod yn unrhyw

Gynghorydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod mewn gwirionedd, ni waeth pa grŵp gwleidyddol yr oeddent yn aelod ohono.

462. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER

Cyn dechrau ar ei gyhoeddiadau ffurfiol, teimlai'r Maer ei bod yn ddyletswydd i ddatgan i'r rhai a oedd yn y briff i Aelodau yn union cyn y Cyngor, fel Maer a phartner y Cyngorydd J Williams, fod y Cyngor hwn gyda'i gilydd yn cydnabod ei dewrder wrth roi esiampl i bob un ohonom yn wyneb gofid mawr ac wrth leisio'r sefyllfa sy'n wynebu nid yn unig ei hun, ond cynifer o unigolion eraill yn wyneb y pandemig.

Yn dilyn hyn, croesawodd y Maer bawb a oedd yn bresennol i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor Cyffredin ers cael ei urddo'n Faer. Gobeithiai fod yr holl Aelodau a Swyddogion a'u teuluoedd yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Cyhoeddodd, er gwaethaf y cyfnod anarferol hwn, ei fod wedi cael y pleser o gyflawni ei ymgysylltiad swyddogol cyntaf, er yn rhithwir. Roedd wedi siarad â Mr Laurence Brophy o Bencoed a oedd yn 88 oed ac wedi beicio o Land's End i John O'Groats ac yn ôl eto i godi dros £5,000 i'r elusen ddigartrefedd, Llamau. Nid yn unig y cyflawnodd Laurence y daith ryfeddol hon, fe'i gwnaeth heb ddim cymorth a chysgu'n arw ar hyd y ffordd er mwyn deall yn well yr heriau o fod yn ddigartref a theimlo'n agored i niwed. Mae Laurence eisoes yn cynllunio ei her nesaf, sef her y tri chop, o bosibl.

Ychwanegodd y Maer ei bod yn oleuedig iawn siarad â rhywun sydd â chymaint o frwdfrydedd, egni ac awydd i helpu'r rhai sy'n llai ffodus na'i hun. Wedi hynny, roedd wedi ysgrifennu at Laurence ac wedi mynegi edmygedd a chefnogaeth y Cyngor i'w ymdrechion yn y dyfodol.

Fel y dywedodd yn ei araith dderbyn fel Maer, yr elusennau y byddai'r Maer yn eu cefnogi yn ystod cyfnod ei swydd yw Parkinson's UK a'r Gymdeithas Epilepsi. Roedd yn edrych ar ddichonoldeb cynnal rhai digwyddiadau codi arian rhithwir a bydd, wrth gwrs, yn diweddarau'r rhai a oedd yn bresennol gydag unrhyw fanylion yn y dyfodol. Yn y cyfamser, gellid rhoi rhoddion drwy gyfrif Just Giving y Maer, ychwanegodd. Mae'r ddolen ar gyfer hyn i'w gweld ar dudalen y Maer ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

463. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru, yn gynharach yr wythnos hon, wedi cadarnhau y bydd Cymru gyfan yn dechrau ar bythefnos o 'gyfnod atal byr' a fydd yn dechrau ddydd Gwener 23 Hydref, ac yn dod i ben ddydd Llun 9 Tachwedd.

Gyda chymaint â 2,500 o bobl yn dal y coronafeirws bob dydd yng Nghymru, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod y camau'n hanfodol i drawsnewid hyn, ac i atal ysbytai ac unedau gofal critigol rhag cael eu llethu yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Bydd y cam hefyd yn cefnogi ymdrechion i gyfyngu ar gyfyngiadau yn ystod cyfnodau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ac mae'n dilyn ymdrechion Llywodraeth Cymru i gadw Cymru'n ddiogel drwy atal pobl rhag teithio i Gymru o 'fannau poeth' y coronafeirws yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd y cyfnod atal byr yn gosod nifer o gyfyngiadau ar aelwydydd a busnesau ledled Cymru drwy gydol ei hyd.

Bydd angen i bobl aros gartref a hefyd gweithio gartref lle bynnag y bo modd.

Dim ond am resymau hanfodol y gall pobl fynd allan, e.e. prynu bwyd neu gasglu meddyginiaeth bresgripsiwn, a gallant hefyd adael y cartref i ymarfer corff naill ai ar eu pennau eu hunain, gydag aelodau o'r aelwyd neu gyda gofalwr.

Bydd oedolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu rieni sengl yn gallu ymuno ag un aelwyd arall i gael cymorth, ond ni fydd yn bosibl ymweld ag aelwydydd eraill neu gyfarfod â phobl nad ydych yn byw gyda hwy, dan do neu yn yr awyr agored.

Ni fydd digwyddiadau awyr agored, gan gynnwys gweithgareddau wedi'u trefnu fel Calan Gaeaf neu Noson Tân Gwylt, yn gallu cael eu cynnal.

Fodd bynnag, bydd eithriad yn cael ei wneud ar gyfer digwyddiadau Sul y Cofio ar raddfa fach, sydd eisoes wedi'u trefnu.

Er y bydd angen i ganolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a chanolfannau ailgylchu i gyd gau, gall parciau lleol, meysydd chwarae a champleydd awyr agored aros ar agor.

O ran yr effaith ar ysgolion lleol, bydd ysgolion cynradd ac arbennig yn ailagor fel arfer ar ôl gwyliau hanner tymor mis Hydref, a bydd ysgolion uwchradd yn ailagor i blant ym mlynnyddoedd saith ac wyth.

Bydd disgyblion yn gallu mynychu'r ysgol i sefyll arholiadau, ond bydd angen i blant eraill barhau â'u dysgu o'u cartref am wythnos ychwanegol.

Mae'n ofynnol i bob busnes manwerthu a lletygarwch di-fwyd, gwasanaethau cyswllt agos, a busnesau digwyddiadau a thwristiaeth gau yn ystod y cyfnod clo.

Bydd hyn yn cynnwys trinwyr gwallt, parlyrau prydfferthu, gwestai, caffis, bwytai a thafarndai, ond bydd gwasanaethau cludfwyd a dosbarthu yn dal i allu gweithredu.

Bydd gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r GIG yn parhau i weithredu, a lle bydd mannau cyhoeddus dan do yn aros ar agor, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn tacsis.

I gefnogi busnesau yn ystod y pythefnos o gyfnod clo, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cronfa newydd gwerth £300m.

Bydd pob busnes a gwmpesir gan y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn cael taliad untro o £1,000, tra bydd pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch bach a chanolog ei faint sy'n rhaid iddo gau yn cael taliad untro o hyd at £5,000.

Mae cronfa a gyhoeddwyd yn ddiweddar i helpu busnesau i ddatblygu yn y tymor hwy yn cynyddu o £80m i £100m, gyda'r £20m ychwanegol wedi'i neilltuo i gefnogi busnesau twristiaeth a lletygarwch.

Bydd grantiau a chymorth dewisol ychwanegol ar gael hefyd, a bydd busnesau'n gallu defnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi presennol neu'r Cynllun Cymorth Swyddi sydd newydd ei ehangu.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn parhau i sicrhau bod cynlluniau cymorth cyflog ar gael.

Ynghyd â'n partneriaid, mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer dechrau'r cyfnod atal byr, ac i sicrhau y gallwn barhau i flaenoriaethu pobl sy'n agored i niwed a darparu gwasanaethau hanfodol.

Drwy gydol hyn, mae rhesymeg Llywodraeth Cymru dros gychwyn y cyfnod atal byr yn parhau'n glir iawn.

Nid oes neb am weld cyfnod clo arall, ond ledled Cymru, mae pandemig y coronafeirws yn gwaethygu, ac nid yn gwella.

Mae pobl yn marw, ac mae angen cymryd y sefyllfa'n llawer mwy difrifol ar draws pob lefel o'r gymuned.

Mae angen y cyfnod atal byr er mwyn atal ein hysbytai a'n gwasanaethau hanfodol rhag cael eu llethu gan achosion o'r coronafeirws yr hydref a'r gaeaf hwn.

Mae'r sefyllfa sy'n gwaethygu wedi golygu bod ysbyty maes Ysbyty'r Seren ar ystâd ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr eisoes wedi dechrau derbyn cleifion o Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Fel y gwyddai'r Aelodau, mae'r ysbytai maes wedi'u cynllunio i leddfu'r straen ar ein prif gyfleusterau, ac i sicrhau y gallant barhau i ganolbwyntio ar gleifion y mae angen gofal mwy arbenigol arnynt.

Roedd angen i bawb chwarae eu rhan i gefnogi'r ymdrechion hyn er mwyn amddiffyn ein hunain, ein ffrindiau a'n teuluoedd, a'n cymunedau.

Fel arweinwyr cymunedol, gwyddai'r Arweinydd y bydd pob aelod yn cefnogi'r ymdrechion hyn, a bydd yn annog etholwyr i gadw at reolau'r cyfnod clo.

Er mwyn helpu pobl i ddeall hyn yn well, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres fanwl iawn o gwestiynau cyffredin ar eu gwefan.

Yn ogystal â darparu cyd-destun eang ar gyfer pam mae angen y cyfnod atal byr, mae hefyd yn rhoi atebion ac yn cadarnhau manylion am ystod eang o bynciau, ac mae'n adnodd defnyddiol os byddwch yn derbyn unrhyw ymholiadau. Ar ôl diwedd y cyfnod atal byr, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi set newydd o reolau cenedlaethol y rhagwelwn y byddant yn ymdrin â sut y gall pobl gyfarfod, sut y gall y sector cyhoeddus a busnesau weithredu, a mwy.

Byddai rhagor o fanylion ar gael wrth iddynt ddod yn hysbys, ond gyda derbyniadau i ysbytai'n codi'n gyflym, unedau critigol eisoes yn llawn a risg wirioneddol y bydd y GIG yn cael ei lethu, mae'n amlwg bod rhaid cymryd camau'n awr, a bod rhaid inni i gyd weithredu gyda'n gilydd er mwyn gwneud iddo weithio ac achub bywydau.

464. **CYFLWYNIAD GAN VALLEYS TO COAST A RHAGLEN O GYFLWYNIADAU I'R CYNGOR YN Y DYFODOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr, a'i ddiben oedd cyflwyno cyflwyniad i'r Cyngor gan Valleys To Coast a rhoi gwybod i'r Aelodau am y rhaglen o gyflwyniadau i'r Cyngor yn y dyfodol.

Cyflwynodd y Maer Jo Oak, Prif Weithredwr V2c, i'r cyfarfod, ynghyd â chydweithwyr, i roi cyflwyniad ar waith V2c a sut mae'n integreiddio â phartneriaid fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac eraill.

Diolchodd Prif Weithredwr V2c yr Aelodau am y cyfle i ddod i siarad â hwy heddiw a gobeithiai y bydd hyn yn ddechrau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a V2c feithrin cydberthnasau cryfach, nid yn unig ar lefel uwch ond ar draws pob rhan o'u

sefydliadau.

Dywedodd ei bod wedi bod yn sgwrsio â Phrif Weithredwr y Cyngor, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r pwysau, y blaenoriaethau a'r nodau cyffredin a rannwn fel sefydliadau ac roedd yn teimlo'n hyderus y byddai lefelau cydweithredu ac ymgysylltu yn cynyddu yn y dyfodol, er mwyn elwa ar ddull gweithredu newydd a dechrau newydd.

Dywedodd Prif Weithredwr V2c fod y Gymdeithas Dai, yn union fel yr awdurdod lleol, yn cynllunio ar gyfer dyfodol nad oedd yn ei ragweld ddechrau eleni. Yn awr, yn fwy nag erioed, roedd angen cydweithio er mwyn cydnabod y meysydd lle gallwn ychwanegu gwerth, y meysydd lle gallwn gyfeirio pobl at eraill a all hefyd, a dod o hyd i ffyrdd o rymuso ein hunain ac eraill i'n helpu gyda'r trawsnewidiad oherwydd y pandemig annhymig.

Roedd V2c yn awr yn gweld mai dyma'r adeg iawn i'r sefydliad hwnnw a'r Cyngor gydweithio'n agosach a chael ei weld fel partner o ddewis gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nid oedd am i V2c gael ei alw'n gymdeithas dai yn unig, ond hefyd i gael ei chydabod am adeiladu cartrefi a chymunedau hefyd.

Yr oedd y berthynas rhwng y ddau yn dechrau'n awr o sefyllfa o gryfder, er ei bod yn cydnabod bod mwy y gellid ei gyflawni i fod yn fwy cydgysylltiedig a mwy y gellid ei wneud er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud ein hunain yn rhan o'r sgysiau ac yn symud tuag at gael eu cynllunio ac nid yn adweithiol yn eu hymatebion.

Dywedodd Prif Weithredwr V2c ei fod fel sefydliad yn gwrando, yn dysgu ac yn ymateb a bod parodrwydd i wella a thyfu. Yr un mor bwysig, roedd brwdfrydedd ac awydd i wneud hyn hefyd. Er iddi gyfaddef nad oedd V2c yn hollol lle'r oedd am fod eto, gan nad oedd y sefydliad yn berffaith o bell ffordd, roedd wedi cael ei chalonogi gan yr ymateb cyfunol gan ei chydweithwyr i'r flwyddyn anodd hon a theimlai fod V2c yn dod i ail gam y pandemig hwn yn llawer cryfach nag yr oedd ar ei ddechrau.

Dywedodd ei bod hi, ynghyd â chydweithwyr, am siarad drwy'r meysydd allweddol lle teimlid y gallai gydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ychwanegu gwerth a hefyd dangos rhai meysydd datblygol, lle'r oedd cynnydd yn cael ei wneud.

Roedd am edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, cyn dechrau siarad am y daith ymlaen. Roedd V2c wedi paratoi fideo adolygu blynyddol a fyddai'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn i 18 mis diwethaf. Byddai hyn yn cael ei anfon at bob Aelod maes o law

Cadarnhaodd Prif Weithredwr V2c, er gwaethaf pêl gromlin y pandemig, ei bod wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol a bod cynnydd wedi'i wneud fel yr adlewyrchwyd gan ddata ac ystadegau yn rhai o sleidiau ei chyflwyniad.

Fodd bynnag, roedd y pandemig wedi newid y sefyllfa i bawb, ac wedi rhoi lens gwahanol i bob un ohonom weld y dyfodol. Roedd hefyd wedi gorfodi unigolion i dderbyn angen am drawsnewidiad carlam ac fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd wedi newid blaenoriaethau V2c, mewn ffyrdd na allem fod wedi dychmygu dim ond mor bell yn ôl â mis Chwefror eleni.

Roedd digynsail yn air yr oedd ychydig ohonom erioed wedi'i ddefnyddio cyn eleni ond nid oes yr un ohonom wedi wynebu bygythiad fel hyn o'r blaen, ychwanegodd

Gan ddysgu wrth i faterion fynd rhagddynt, roedd V2c yn sicrhau bod y sefydliad yn cynnal cyfathrebu agored â chwsmeriaid, gan fabwysiadu system goleuadau traffig i roi gwybod iddynt am statws gwasanaethau, gan ddefnyddio ei wefan, y cyfryngau

cymdeithasol, testunau a llythyrau rheolaidd i hysbysu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i denantiaid.

Ers mis Gorffennaf diwethaf, cadarnhaodd Prif Weithredwr V2c fod gan V2c, o fewn ei sefydliad, heriau hefyd, gyda nifer o staff wedi mynd ar y cynllun ffyrlo wrth i'w wasanaethau craidd gael eu cau ac wrth iddo gwblhau argyfyngau yn unig. Er gwaethaf y cyfyngiadau, roedd V2c yn gallu gwneud dros 3,000 o atgyweiriadau brys, gan gadw ein cwsmeriaid a'u cartrefi'n ddiogel.

Dysgwyd gwersi o hyn, fodd bynnag, ac roedd V2c wedi gwrando ar adborth yr oedd wedi'i gael ac wedi rhoi ar waith dechrau nifer o newidiadau a fydd yn sicrhau bod y gymdeithas dai yn y dyfodol yn gwneud cysylltiadau cysylltiol nid yn unig â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond â phartneriaid eraill i sicrhau bod ymateb ar y cyd i unrhyw don ddilynol.

Esboniodd fod timau atgyweirio a chynnal a chadw V2c, ar 5 Hydref 2020, wedi dychwelyd i wasanaeth llawn ac wedi dechrau gweithio drwy atgyweiriadau dros ben a oedd wedi codi ers covid-19. Teimlai fod y sefydliad eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran clirio llawer o'r rhain ac roedd V2c bellach yn derbyn ceisiadau atgyweirio newydd drwy ei Ganolfan.

O ran ei wasanaethau Gosod a Thai, roedd V2c bellach yn gosod eiddo fel arfer ac yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i osod cartrefi pan fyddant ar gael. Roedd hefyd yn hysbysebu eiddo ar HomeHunt.

Roedd gwasanaethau fel "materion ariannol" yn cael eu cynnal o bell dros y ffôn gydag ymweliadau cartref ond yn digwydd os oedd angen dybryd.

O ran ffyrdd newydd o weithio yn y 'Normal Newydd', dywedodd Prif Weithredwr V2c fod y sefydliad, yn fewnol, wedi gweithio'n galed i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd V2c yn cydymffurfio â chanllawiau covid ac roedd asesiadau risg cadarn ar waith i ddiogelu cydweithwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd. Roedd V2c bellach yn cynnal proses 'olrhain' ar adeg ei apwyntiad ac ar garreg y drws. Byddai hefyd yn canslo ac yn ail-archebu apwyntiadau, pe bernid nad oedd yn ddiogel i'w cynnal y tro cyntaf.

Roedd yr addasiad hwn yn cael ei ystyried yn arferiad ac arfer arferol wrth symud ymlaen, gan nad oedd yn hysbys pa mor hir y byddai angen cynnal gweithrediadau fel hyn. Gobeithio bod y ffordd hon o weithio yn adlewyrchu bod V2c yn gwneud popeth y gellir ei wneud, er mwyn dangos i gydweithwyr a chwsmeriaid ei fod yn eu cadw'n ddiogel a bod gan y sefydliad hyder hefyd yn y 'normal newydd'.

Yna rhannodd Prif Weithredwr V2c ychydig o ystadegau gydag Aelodau, fel a ganlyn:-

- Roedd £1.26m o werth wedi'i gynhyrchu i gwsmeriaid gan dîm Materion Ariannol V2c;
- Roedd V2c wedi rhentu 5,888 o gartrefi ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Roedd V2c wedi cymryd 80,361 o alwadau ffôn drwy ei Ganolfan;
- Roedd 81.82% o gwsmeriaid V2c yn fodlon ar ei berfformiad;
- Roedd V2c wedi ymrwymo £6.9m i atgyweiriadau a gwelliannau wedi'u cynllunio;
- Roedd V2c wedi adeiladu 33 eiddo newydd

Erbyn hyn roedd V2c wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu ffyrdd newydd o weithio. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei bod am neilltuo'r gymdeithas dai i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan mai'r awdurdod lleol oedd y cynrychiolydd democrataidd ar gyfer pob cymuned ym

Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn rhan bwysig iawn o'r 'llais cymunedol'. Gobeithio bod y rhai a oedd yn bresennol wedi gweld proses ymholiadau newydd Aelodau V2c a ddylai olygu ei bod yn haws cysylltu â chynrychiolydd o'r sefydliad. Hefyd, byddai Aelodau yn derbyn gwahoddiad, os nad oeddent wedi derbyn un yn barod, i gerdded o amgylch ein cymunedau a deall y materion ar y cyd (gyda chynrychiolwyr o V2c).

O ran cyswllt uniongyrchol â chwsmeriaid, dywedodd Prif Weithredwr V2c ei bod wedi ymrwymo i:

1. Cadw mewn cysylltiad â'r rhai yr oedd arnynt eu hangen fwyaf, o alwadau rhent i alwadau lles. Cysylltu â chwsmeriaid gwarchod bob wythnos. Roedd gwaith rhagweithiol yn mynd rhagddo gyda'r tîm materion ariannol, gyda thros 3,000 o alwadau lles gydag atgyfeiriadau at fanciau bwyd, cyngor ariannol ac weithiau, dim ond er mwyn cael sgwrs gyda thenantiaid i weld sut y maent a sut maent yn ymdopi yn ystod cyfnod y coroanfeirws.
- 2. Deall sut mae materion wedi newid ac yn ceisio ymgysylltu â Chynghorwyr lleol a phartneriaid eraill wrth i anghenion cymunedol newid. Roedd gwaith wedi bod yn mynd rhagddo gydag Aelodau lleol Heol-y-Cyw a Wildmill i'r perwyl hwn.
3. Gyda golwg ar ofalu am y digartref, roedd V2c wedi bod yn ymwneud ag 'ailgartrefu cyflym', h.y. gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu cartrefi i bobl mewn llety dros dro. Cynhyrchwyd hwn ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a rhanddeiliaid/sefydliadau partner allweddol eraill ac roedd wedi bod yn fenter lwyddiannus i raddau helaeth.
4. Nid oedd unrhyw ddadfeddiannu nac unrhyw gamau cyfreithiol eraill wedi'u cymryd yn erbyn tenantiaid yn ystod y pandemig, ychwanegodd Prif Weithredwr V2c. Roedd partneriaethau hefyd yn cael eu datblygu, gyda'r nod o gysylltu gwasanaethau â'r cwsmeriaid yr oedd arnynt ei angen fwyaf.

Roedd V2c hefyd wedi llunio partneriaeth gefnogol gyda The Wallich. Nid yn unig y byddai'n elusen y cwmni am y 18 mis nesaf, ond byddai V2c hefyd yn cynnal trafodaethau gwybodaeth gyda hwy, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o sut y gellid gwneud sicrwydd, fel nad yw pobl yn cael eu hunain yn ôl ar y strydoedd heb gartref.

Roedd V2c hefyd yn rhoi camau ar waith, fel y gellid dod o hyd i'r cartrefi cywir yn y mannau cywir i denantiaid. Roedd hyn yn cael ei gyflawni drwy strategaethau datblygu a rheoli asedau a deall a diwallu angen lleol.

Ychwanegodd Prif Weithredwr V2c ei bod hefyd yn ymwneud â gweithio gyda'r partneriaid cywir i gyflawni ei nodau a'i amcanion, er enghraifft gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a datblygwyr tai er mwyn sefydlu maint a math y datblygiadau yr oedd eu hangen ym mhob lleoliad gwahanol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Roedd V2c hefyd yn ceisio darparu cartrefi fforddiadwy a rhad i'w rhedeg, wrth feddwl am ddadgarboneiddio, buddsoddi mewn asedau neu ddadfuddsoddi.

Ychwanegodd Prif Weithredwr V2c ymhellach, fod y gymdeithas dai wedi rhannu ei nodau a'r hyn yr oedd am ei gyflawni ac erbyn pryd, i'r tymor byr a'r tymor hir fel rhan o'i Strategaeth Gynllunio yn y dyfodol, gan gydnabod felly na ellid cyflawni'r cyfan yr oedd am anelu ato dros nos.

Roedd V2c hefyd am sicrhau bod ei gwsmeriaid yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn hapus, drwy eu rhoi wrth wraidd yr hyn a wnaeth. Roedd hefyd am gynnal a chadw'r gwaith o

wneud cartrefi'n ddiogel ac yn effeithlon o ran ynni, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y cyfle i dyfu i ddiwallu'r anghenion gofynnol.

Roedd V2c hefyd am gadw ei denantiaid yn ddiogel ac yn hapus, drwy adeiladu sefydliad sy'n perfformio'n dda drwy greu timau talentog ac amrywiol a bod yn bartner dewis, drwy adeiladu cymunedau ffyniannus a chysylltiedig.

Roedd Prif Weithredwr V2c yn gwbl ymwybodol mai gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oedd bod yn sefydliad unedig ac yn gweithio gyda'i gilydd, h.y. "Bod yn un Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i wella bywydau". Fel partner allweddol, roedd V2c am efelychu'r dull hwnnw.

Ychwanegodd:

- **Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am helpu pobl a chymunedau i ddod yn fwy iach a gwydn -**
Roedd V2c yn gwerthfawrogi'r pethau hynny hefyd ac am ddod â'r ymdeimlad hwnnw o gymuned yn ôl. Mae llawer o bobl yn dweud ei fod wedi bod ar goll. Gadael i gymunedau sefyll ar eu traed eu hunain a chymryd yn ôl rywfaint o falchder a menter a allai fod wedi'u colli.
- **Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am gefnogi economi lwyddiannus a chynaliadwy**
Roedd hyn yn uchel ar agenda V2c hefyd ac roedd yn bwriadu canolbwyntio ar yr economi sylfaenol, adeiladu cartrefi ynni isel a chreu cyfleoedd gwaith yn lleol hefyd,
- **Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am ddefnyddio ei adnoddau'n ddoethach**
Credai V2c y gall y ddau gorff, drwy gydweithio, leihau dyblygu a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd gennym.

Yna ymatebodd Prif Weithredwr V2c i gwestiynau gan Aelodau yn ymwneud â'u hardaloedd lleol, ac ar ôl hynny

PENDERFYNWYD:

- (1) Bod Aelodau wedi nodi cyflwyniad y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Datblygu Valleys to Coast.
- (2) Bod Aelodau wedi nodi hefyd y rhaglen o gyflwyniadau i'r Cyngor yn y dyfodol fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad.

465. **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-20**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr a'i ddiben oedd cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2019-20 y Cyngor (yn Atodiad A) i'r Cyngor ei ystyried a'i gymeradwyo.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, yn unol â chanllawiau statudol Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol (SPSF: 2) ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fod yn rhaid i gyrff cyhoeddus unigol adolygu cynnydd eu hamcanion llesiant yn flynyddol a chyhoeddi adroddiad i asesu i ba raddau y mae'r amcanion hyn yn cyfrannu at y nodau llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

O dan adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac yn unol â'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rhaid i'r awdurdod hefyd gyhoeddi ei asesiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol cyn 31 Hydref.

- II Esboniodd fod y Cyngor, ym mis Mawrth 2019, wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol 2018-22, a ddiwygiwyd yn 2019-20. Mae'r Cynllun yn nodi ei weledigaeth, sef gweithredu bob amser fel 'Un Cyngor yn cydweithio i wella bywydau', a'i dri amcan llesiant. Mae'r Cynllun hefyd yn ailadrodd yr amcanion llesiant ar gyfer 2019-20.

Dywedodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, fod y Cynllun yn diffinio 41 o ymrwymadau i gyflawni'r tri amcan llesiant ac yn nodi 56 o ddangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i fesur y cynnydd ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn gyffredinol, perfformiodd y Cyngor yn dda iawn yn 2019-20, meddai. O'r 41 ymrwymiad, cwblhawyd 34 (82.9%) yn llwyddiannus gyda 3 (7.3%) yn cyflawni'r rhan fwyaf o'u cerrig milltir a 4 (9.8%) yn methu'r rhan fwyaf o'u cerrig milltir. Roedd rhesymau y gellir eu cyfiawnhau pam y methwyd â chyrraedd rhai targedau.

O'r 56 dangosydd a nodwyd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol, gellir cymharu 52 â'u targed: cyrhaeddodd 35 (67.3%) eu targed, methodd 9 (17.3%) â chyrraedd eu targed o lai na 10% a methodd 8 (15.4%) â chyrraedd eu targed o fwy na 10%. Cynhwyswyd gwybodaeth fanwl am berfformiad y Cyngor yn Atodiad A i'r adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, ymhellach, oherwydd Covid-19, fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fyddai unrhyw gasglu data o Fesurau Atebolwydd Cyhoeddus ar gyfer 2019-20 felly ni wnaed unrhyw ddadansoddiad mewn perthynas â'r dangosyddion hyn.

Nodwyd crynodeb o gyllid a pherfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn, canfyddiadau a themâu rheoleiddwyr sy'n sail i waith y Cyngor hefyd yn yr adroddiad, a oedd, oherwydd y pandemig, wedi edrych ymlaen yn ogystal ag yn ôl. Dyma rywbeth nad oedd wedi bod yn arfer ar gyfer yr Adroddiad Blynnyddol, yn y gorffennol.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 11 yr Adroddiad Blynnyddol a'r Nod o greu canol trefi llwyddiannus. Nododd nad oedd nifer yr ymwelwyr â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr o ran ei tharged o 7.2m ar gyfer 2019/20 wedi'i gyflawni a hynny o gryn dipyn. Nododd ymhellach fod nifer yr ymwelwyr yn nhref Porthcawl wedi cynyddu o 2018/19. Gofynnodd am rywfaint o eglurhad pam yr oedd hyn yn wir, yn enwedig o gofio bod GFK wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn eu tro y byddent yn edrych ar y data perthnasol y tu allan i'r cyfarfod ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod yn unol â hynny gyda'r rhesymau dros hyn.

PENDERFYNWYD:

Bod y Cyngor wedi cymeradwyo Adroddiad Blynnyddol 2019-20 (yn Atodiad A i'r adroddiad).

466. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 2 2020-21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, a'i ddiben oedd:

- cydymffurfio â gofyniad 'Y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol' (argraffiad 2017) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020 (Atodiad A i'r adroddiad);
- ceisio cymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 i 2029-30 (Atodiad B);
- nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion rhagamcanol Eraill ar gyfer 2020-21 (Atodiad C)

Atgoffodd yr Aelodau, ar 26 Chwefror 2020, fod y Cyngor wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2020-21 i 2029-30 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Cafodd y rhaglen gyfalaf ei diweddarau a'i chymeradwyo ddiwethaf gan yr Aelodau ar 22 Gorffennaf 2020. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd canlynol:

- Y diweddaraf am y Rhaglen Gyfalaf Chwarter 2 2020-21
- Rhaglen Gyfalaf 2020-21 Ymlaen;
- Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill;
- Monitro'r Strategaeth Gyfalaf

Gan droi at y Rhaglen Gyfalaf, cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, at baragraff 4.1 o'r adroddiad. Roedd yr adran hon o'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ac mae'n ymgorffori unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 yn dod i gyfanswm o £53.541 miliwn, y mae £27.850 miliwn ohono'n dod o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £25.691 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol.

Dangosodd Tabl 1 yn yr adran hon o'r adroddiad y rhaglen gyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o safbwynt cymeradwy'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2020 (Chwarter 1) hyd at chwarter 2.

Yna, crynhodd Tabl 2 y tybiaethau ariannu presennol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020-21. Rheolir yr adnoddau cyfalaf i sicrhau'r budd ariannol mwyaf posibl i'r Cyngor. Gall hyn gynnwys adlinio cyllid er mwyn sicrhau'r grantiau mwyaf posibl gan y llywodraeth, eglurodd.

Yna cyfeiriodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, at Atodiad A yr adroddiad, a roddodd fanylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y gyllideb a oedd ar gael yn 2020-21 o gymharu â'r gwariant rhagamcanol.

Nodwyd eisoes bod angen llithriant cyllideb ar nifer o gynlluniau i flynyddoedd y dyfodol (2021-22 a thu hwnt). Yn chwarter 2, cyfanswm y llithriant y gofynnwyd amdano oedd £13.875 miliwn. Dangoswyd manylion y cynlluniau hyn ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Dywedodd fod nifer o gynlluniau newydd wedi'u cymeradwyo a'u hariannu'n fewnol ers yr adroddiad cyfalaf diwethaf ym mis Gorffennaf 2020, sydd wedi'u hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf. Cafodd y rhain eu cynnwys ar dudalen 123/124 o'r adroddiad, gyda Rhaglen Gyfalaf Ddiwygiedig wedi'i chynnwys yn Atodiad B (i'r adroddiad).

Ym mis Chwefror 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020-21, a oedd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus 2020-21 i 2022-23 ynghyd â rhai dangosyddion lleol.

Roedd Atodiad C i'r adroddiad yn manylu ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2019-20, yr amcangyfrif o'r dangosyddion ar gyfer 2020-21 a nodir yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig. Dangosodd y rhain fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r terfynau cymeradwy.

Clodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, drwy roi naratif byr ar Strategaeth Monitro Cyfalaf y Cyngor.

Nododd Aelod, o baragraff 4.5 o'r adroddiad, fod £0.5m wedi'i neilltuo i newid rhai o Fflyd y Cyngor, h.y. Cerbydau ar Hyd y Cyngor. Gofynnodd i Swyddogion a oeddent hefyd yn ystyried darparu dulliau Ynni Amgen i weithredu rhai o'r cerbydau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod mewn ymgynghoriad â chwmni o Japan o fewn yr ychydig ddyddiau diwethaf, yn dilyn cyfarwydddeb gan Lywodraeth Cymru a Chanolog i awdurdodau lleol ystyried mabwysiadu ffynonellau ynni amgen nid yn unig at ddibenion gwresogi, ond at drafnidiaeth hefyd.

Er nad oedd cerbydau a oedd wedi'u hadfywio'n drydanol yn addas i dopograffeg Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd cerbydau hydrogen yn opsiwn ar gyfer fflyd HGV Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a byddai hyn yn cael ei ystyried yn weithredol fel rhan o gynigion darparu fflyd yn y dyfodol. Roedd hefyd yn bosibl i'r awdurdod lleol archwilio cerbydau a wefrir yn drydanol ar gyfer rhai o'i fflyd lai, ychwanegodd.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd mai dyma oedd diweddariad y rhaglen Gyfalaf ar gyfer ail chwarter y Flwyddyn. Tynnodd sylw at y ffaith bod rhywfaint o lithriant o ran rhai cynlluniau, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y rhesymau pam yr oedd oedi wrth y cynlluniau hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod, ychwanegodd, ond roedd yr ymrwymiad yn dal yno i'r rhain gael eu cyflawni.

Croesawodd hefyd y grantiau newydd a gafwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at Welliannau Priffyrdd a'r Rhaglen Teithio Llesol, yn ogystal â'r cymorth ariannol a gafwyd, er mwyn trosi 10 o Dai Fforddiadwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn Unedau Masnachol.

PENDERFYNIAD:

Bod y Cyngor wedi:

- nodi diweddariad rhaglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Medi 2020 (Atodiad A i'r adroddiad);
- Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B);
- nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion rhagamcanol Eraill ar gyfer 2020-21 (Atodiad C).

467. ADRODDIAD GWYBODAETH AR GYFER NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio a'r Swyddog Monitro ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD:

Bod y cyngor yn cydnabod cyhoeddiad y ddogfen a restrir yn yr adroddiad.

468. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN:

Y Cynghorydd A Hussain i'r Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet – Cymunedau

Yn y DU defnyddir tua 11 biliwn o weips gwlyb bob blwyddyn - gan achosi 93 y cant o rwystrau mewn carthffosydd yn y DU. Yng Nghymru, mae Dŵr Cymru yn delio â thua 2,000 o rwystrau carthffosydd bob mis a'r prif achos yw weips.

O wybod bod 90 y cant o'r weips yn cynnwys mwy na 3/4 plastig a chan ein bod yn gwneud yn dda gyda'n casgliadau gwastraff ailgylchu, a ddylem fod y Cyngor cyntaf i gyflwyno casgliad ar wahân ar gyfer y weips gwlyb hyn fel unrhyw blastig untro arall?

Ymateb:

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr eisoes ymhlith yr awdurdodau ailgylchu gorau yng Nghymru. Ymhell y tu hwnt i'r targed ailgylchu statudol o 64% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Diolch i ymrwymiad ac ymgysylltiad y cyhoedd â'n prif wasanaeth ailgylchu.

Ar 1 Ebrill 2024, bydd dwy garreg filltir bwysig yn cael eu pasio o ran ein gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. Yn gyntaf, bydd targed ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru yn codi i 70% ailgylchu ac, yn ail, bydd ein contract presennol sy'n diffinio ein methodoleg gwasanaeth casglu gyda Kier yn dod i ben.

Mae swyddogion eisoes yn gweithio ar yr opsiynau ar gyfer y gwasanaeth ar ôl 2024, a thros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf, bydd ymgysylltu ag aelodau'r cyngor a'r cyhoedd yn cael ei wneud i ddiffinio cam nesaf ein darpariaeth gwasanaeth.

Proses a fydd yn cynnwys adolygu'n strategol ac yn gyfannol yr hyn y mae'r ystod o ddeunyddiau rydym yn eu hailgylchu yn y dyfodol yn cynnwys. Sicrhau ein bod yn sicrhau'r budd amgylcheddol mwyaf posibl mewn ffordd gost-effeithiol. Gwarantw bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn arweinydd yn y maes hwn o ddiogelu'r amgylchedd a rhagori ar dargedau statudol.

O ran y cais penodol i ailgylchu weips gwlyb, er ei bod yn bosibl eu hailgylchu (nid gyda'n plastig ymyl palmant arferol) ond gyda'n allanfa ar gyfer Cynhyrchion Hylendid Amsugol (AHP) sy'n gallu mynd â hwy oddi wrthym ni, nid yw'n cael ei argymhell ar hyn o bryd.

Er mwyn ailgylchu'r weips gwlyb byddai angen ymestyn y gwasanaeth AHP i bob cartref er mwyn casglu tunelli ychwanegol cymharol fach o ddeunydd ar wahân. Byddai hyn yn afresymol o ddrud ac yn amheus o ran budd amgylcheddol wrth ystyried effaith carbon anfon cerbydau i bob cartref ar gyfer symiau mor gyfyngedig o ddeunydd ailgylchadwy.

I grynhoi a chloi, byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth ailgylchu sy'n arwain y farchnad, gan fynd ati i hyrwyddo ac ymgysylltu â'r cyhoedd o ran y gwasanaeth presennol. Wrth gynnal adolygiad ar raddfa gyfan o'r ddarpariaeth yn barod ar gyfer gweithredu cyfundrefn gasglu ddiwygiedig ym mis Ebrill 2024. Nid argymhellir newidiadau i gontractau canol tymor a gwasanaethau.

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd A Hussain

Defnyddir weips ar hyn o bryd naill ai ar gyfer llenwi tir neu maent yn cael eu llosgi sy'n cyfrannu at fwy o allyriadau carbon ac ansawdd aer gwael na cherbydau. Gellir osgoi hyn a gadewch inni obeithio ac aros am ein fflyd drydan ar gyfer casglu gwastraff.

Rydym yn rhoi bagiau te yn ein bin gwastraff bwyd fel y'i nodwyd ar ein cad i gwastraff bwyd cartref, gan wybod mai'r sgerbwdd a adewir ar ôl, fodd bynnag, yw'r polypropylen

(PP) nad yw'n fiogdiraddiadwy ac felly ni ellir ei gompostio 100 y cant. A ddylem ganiatáu i'r halogiad hwn sy'n effeithio ar ansawdd y compost barhau?

Ymateb

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd mai'r mater pwysicaf oedd ceisio newid ymddygiad y cyhoedd, drwy eu hannog i beidio â phrynu lle bynnag y bo modd, unrhyw beth na ellir ei ailgylchu. Roedd yn ymwybodol o fater y bag te o ran bod rhai mathau o'r rhain yn dod â lefel fach o gydrannau plastig ynddynt. Fodd bynnag, roedd rhai hefyd y gellir eu compostio'n llwyr. Pan fydd y Cyngor yn anfon ei gompost ar gyfer ailgylchu ar hyn o bryd, h.y. ar safle Kenning, roeddent yn gallu llwyddo i dynnu gronynnau bach o blastig allan o'r cynhyrchion hynny a oedd yn cynnwys hyn, fodd bynnag, ac yn eu tro, ail-gyfeirio'r rhain ar gyfer cynhyrchu ynni.

Ail gwestiwn atodol gan y Cyngorydd B Sedgebeer

Mae angen i ni annog pobl yn fwy i beidio â defnyddio na phrynu eitemau, gan gynnwys mathau penodol o weips a bagiau te sy'n cynnwys plastig, fel y cyfeiriodd y Cyngorydd Hussain ato yn ei gwestiynau uchod. Gofynnodd a allai'r Cabinet weithio gyda sefydliadau, megis y Bwrdd Iechyd a'r Blynnyddoedd Cynnar ac ati, er mwyn annog y defnydd o gynhyrchion y gellir eu haildefnyddio fel weips a chlytia, fel na châi unrhyw weddillion plastig diangen mewn cynhyrchion fel y rhain ymhlith eraill, eu cynnwys ynddynt o'r cychwyn pan gânt eu cynhyrchu, yn hytrach na cheisio ailgylchu deunydd plastig o'r fath a allai gael ei gynnwys yn yr eitemau hyn pan gânt eu cynhyrchu i ddechrau.

Ymateb

Cadarnhaodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn aelod o Fwrdd y Rhaglen Weinidogol a gyfarfu bob chwarter â Gweinidog Llywodraeth Cymru. Byddai'n codi hyn yn y cyfarfod nesaf, gan fod syniadau ar sut i wella dulliau ailgylchu deunyddiau a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei fwydo i'r brif ffrwd/ffrydiau gwastraff, bob amser yn edrych i gael ei wella.

Trydydd cwestiwn atodol gan y Cyngorydd PA Davies

Y broblem go iawn oedd cynhyrchu eitemau fel weips gwlyb yn y lle cyntaf. A allai'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn i Weinidogion gyflwyno deddfwriaeth i atal cynhyrchu'r rhain sydd â phlastig ynddynt.

Ymateb

Cytunwyd ar yr awgrym hwn drwy gydsyniad.

469. EITEMAU BRYD

Derbyniodd y Maer y cwestiwn canlynol fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Cwestiwn gan y Cyngorydd MC Voisey i'r Arweinydd

A wnaiff yr Arweinydd amlinellu'r trafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Prif Weinidog a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru cyn cyhoeddi'r 'cyfnod atal byr'. Pa dystiolaeth a ddarparwyd iddo i sicrhau mai dyma'r unig ffordd angenrheidiol o weithredu ac a yw'n ei gefnogi?"

Ymateb

Cyfarfu holl Arweinwyr awdurdodau lleol Cymru â'r Prif Weinidog ar 15 Hydref 2020, ynghylch y cynnig uchod. Yn yr un modd, cyfarfu pob Arweinydd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol ar 16 a 18 Hydref. Yna, cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru, fel y gwnaethant yn gyhoeddus, achos cymhellol yn seiliedig ar wybodaeth wyddonol a meddygol a gynhyrchwyd gan y Prif Swyddog Gwyddonol a Phrif Swyddog Meddygol yng Nghymru ac yn dilyn cynnal Grwpiau Cyngori Arbenigol Covid-19 a ystyriodd y wybodaeth hon. Gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno cyfnod atal byr wedyn, oherwydd y cynnydd mewn achosion o'r coronafeirws ledled Cymru, a gadarnhaodd yn ei dro fod derbyniadau i'r ysbyty yn codi ac y byddent yn parhau i godi yn y dyfodol agos, pe na bai camau'n cael eu cymryd. Pe na bai camau wedi'u cymryd, yna byddai bywydau pellach wedi'u colli, ynghyd â risg y byddai'r GIG yng Nghymru yn cael ei lethu gan gynnydd yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i fwy o achosion covid-19. Gwnaethpwyd yr achos hwn i holl Arweinwyr awdurdodau lleol Cymru a chadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd wedi clywed set arall o fesurau'n cael eu cynnig, gan gynnwys gan wrthblaid, i'r un a awgrymwyd gan y Prif Weinidog. Roedd angen y cam gweithredu hwn er mwyn atal cynnydd a lledaeniad achosion Covid-19 yn ein cymunedau yng Nghymru. Mae ein Tîm Rheoli Gwib, grŵp amlasiantaeth ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnwys awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr a Rhondda Cynon Taf, wedi cytuno â'r argymhelliad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, sef bod angen gweithredu ar frys ar hyn o bryd, er mwyn atal ton y feirws er mwyn sicrhau cyn lleied o golli bywydau o ganlyniad i'r pandemig.

Cwestiwn atodol gan y Cyngorydd MC Voisey

Bydd gan y clo cenedlaethol y perygl o niweidio lles economaidd ac iechyd mwy o bobl nag effeithiau posibl Covid-19. Deallaf fod pob un o'r 22 arweinydd Awdurdod Lleol wedi gwneud cais i gadw pob ysgol uwchradd ar agor, a bod mwy o gyfyngiadau lleol mewn mannau poeth yn cael eu defnyddio. Yn amlwg, anwybyddwyd eich lleisiau gan y Prif Weinidog. Erbyn hyn mae busnesau fel campfeydd (sydd bellach ar agor yn Lerpwl), sy'n bwysig i les, iechyd corfforol a meddyliol ein dinasyddion, ar gau, heb dystiolaeth bod ganddynt berygl o ledaenu Covid, fel trinwyr gwallt yn yr un modd ac ati. Pan adolygir y pythefnos o gyfyngiadau, beth fyddwch chi fel Arweinydd yn ei wneud i gefnogi lleisiau'r bobl a'r busnesau nas clywir yr ydych yn eu cynrychioli, er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwrandawriad teg.

Ymateb

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn siomedig nad oedd y Cyngorydd wedi gofyn cwestiwn tebyg yn y briff cyn y Cyngor heddiw, pan oedd arbenigwyr fel yr Athro Nnoaham ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bresennol yno.

Ychwanegodd ei fod yn rhannu'r pryderon ynglŷn â'r effaith y byddai'r 'cyfnod atal byr' yn ei chael ar fusnesau. Fodd bynnag, roedd yr Arweinydd yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymrwymiad ariannol ychwanegol o £200m i fusnesau Cymru, sef y pecyn cymorth mwyaf a gyflwynwyd hyd yma ledled y DU, yn ôl yr hyn a gredai, ac yn llawer mwy nag a addawyd gan Lywodraeth y DU, h.y. £65m ar gyfer Manceinion Fwyaf. Cydnabu, fodd bynnag, fod angen sicrhau bod y cymorth yn gynhwysfawr o hyd ac i'r perwyl hwn, roedd awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch manylion manylach y cyllid hwn. Perygl mwy na'r hyn y cyfeirir ato yn y cwestiwn atodol fyddai pe na bai Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n awr drwy'r cyfnod atal byr, byddai cyfyngiadau llymach a hyd yn oed hirach yn wynebu'r cyhoedd yng Nghymru, mae'n debyg, ac o bosibl byddai'r rhain wedi'u hymestyn dros gyfnod y Nadolig. Byddai hyn yn cael effaith fwy niweidiol fyth o ran yr economi a busnesau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Teimlai y dylai Aelodau gydnabod bod unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â chyfyngiadau oherwydd y pandemig, yn anodd iawn eu gwneud a byddai'r rhain i gyd, i raddau amrywiol, yn arwain at effaith negyddol ar y cyhoedd a'r economi mewn ardaloedd lleol a/neu yng

Nghymru gyfan. Teimlai mai'r peth pwysicaf oedd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu pan wnaeth er mwyn atal llif y feirws a oedd yn cynyddu ym mhob rhan o Gymru ac yn berygl i fywyd.

Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd S Baldwin

A allai'r Arweinyddion gadarnhau, drwy gydol y trafodaethau manwl a gafodd Arweinwyr awdurdodau lleol Cymru gyda'r Prif Weinidog ynglŷn â'r cyfnod atal byr, yr hyn a gynigiwyd gan grwpiau gwrthblaid yng Nghymru, gan gynnwys yn y Senedd, fel ffordd amgen o weithredu i hyn yn wyneb achosion cynyddol Covid-19 a'r ap olrhain methiannus.

Ymateb

Atebodd yr Arweinydd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gynigion amgen a gyflwynwyd fel dewis amgen i'r cyfnod atal byr, gan grwpiau gwleidyddol ar wahân i Lafur, er ei fod yn ymwybodol bod Plaid Cymru yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyn, ynghyd â rhai Arweinwyr/Aelodau Annibynnol eraill ledled Cymru. Fodd bynnag, ailadroddodd yr Arweinydd fod angen rhoi'r pecynnau cymorth cywir ar waith o hyd a bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd er mwyn ceisio dod i gytundeb ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:30